Rhif: WG35862

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Gwasanaethau Mabwysiadu

## Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd

Dyddiad cyhoeddi: 4 Medi 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 27 Tachwedd 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar set newydd o reoliadau mabwysiadu - Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 drafft - a fydd yn disodli elfennau o'r tair set o reoliadau presennol: Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Mabwysiadu (Amryfal Ddiwygiadau) 2003; Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005 a Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007.<br><br>Mae hefyd yn gofyn am eich barn ar ganllawiau statudol drafft a chod ymarfer a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau newydd hyn. Bydd y rheoliadau mabwysiadu newydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.<br><br>Yn olaf, mae'r ymgynghoriad yn gofyn am eich barn ar yr opsiynau ar ddyfodol yr adolygiadau annibynnol o benderfyniadau ynghylch mabwysiadu. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi a dychwelyd y ffurflen ymateb i ymgynghoriad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb at:<br><br>Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth<br>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau) a gellir ei dychwelyd atom erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost i: RISCAct2016@gov.wales |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>**Ymgynghoriad: Rheoliadau Gwasanaethau Maethu** (24 Mai i 16 Awst 2018)<br>https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-gwasanaethau-maethu<br><br>**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017** - mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth cartref<br>http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf |

**Canllawiau Statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ynghylch bodloni rheoliadau safonau gwasanaethau (Chwefror 2018)** - mae'r canllawiau hyn yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth cartref
https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf

**Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad: Ymgynghoriad ar Gam 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**
https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171122responses-servicecy.pdf

**Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd Angen Cymorth**
www.wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=cy

**Manylion Cysylltu**

**I gael rhagor o wybodaeth:**


Cyfeiriad: Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: RISCAct2016@gov.wales

ffôn: 0300 0604400

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Rhagair

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur gwyn *Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*. Roedd yn esbonio cynllun uchelgeisiol i greu dull integredig a newydd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Er mwyn cyflawni'r dull newydd hwn o weithredu, yn ystod tymor diwethaf y cynulliad aethom ati i lunio dau ddarn o ddeddfwriaeth syfaenol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Drwy weithredu Deddf 2016 rydym yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac archwilio darparwyr gwasanaethau sy’n gwarchod hawliau dinasyddion Cymru i gael gofal a chymorth urddasol, diogel a phriodol. Bydd y system newydd hon yn fwy cadarn ac yn galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaeth, i oruchwylio'r holl wasanaeth mae sefydliad yn ei ddarparu.

Mae sicrhau cysondeb yn y gofynion a osodir ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol yr holl wasanaethau rheoleiddiedig yn un o fy mhrif amcanion polisi wrth weithredu Deddf 2016. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod gan bob gwasanaeth ei nodweddion ei hun. Bydd y gofynion felly yn cael eu teilwra lle bo'n briodol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn y ffordd orau â sut y caiff gwasanaethau eu darparu yn ymarferol, heb gyfaddawdu'r safonau cyffredinol a ddisgwylir.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 drafft, y canllawiau statudol cysylltiedig (ar gyfer gwasanaethau mabwysiedig rheoleiddiedig) a chod ymarfer (mewn cysylltiad â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol) yn nodi ac yn esbonio'r safonau ar gyfer y gwasanaeth y bydd eu hangen o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Drwy wneud hynny, ac i'r graddau y bo’n bosibl, rwy'n cynnig ein bod yn cymhwyso'r un gofynion rheoliadol i'r 'cymdeithasau mabwysiadu' (o fewn yr ystyr a roddir yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002), asiantaethau cymorth mabwysiadu a gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, sydd gennym ar hyn o bryd. A hynny oherwydd bod rhai o'u prif weithgareddau yn dod o fewn ystyr gofal a chymorth o dan Ddeddf 2016.

Rwy'n cydnabod y bydd y rheoliadau newydd hyn yn rhoi gofynion ychwanegol ar wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, fel y gwelwyd gyda gwasanaethau maethu, rydym yn credu y dylai gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol fod yn gymwys i gael yr un lefel o reoleiddio â gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig (gan gynnwys cymdeithasau mabwysiadu ac asiantaethau cymorth mabwysiadu), er mwyn sicrhau cysondeb rhwng pob math o ddarparwr gwasanaethau mabwysiadu.

Hoffwn ddiolch i chi am roi eich amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon, am ystyried y fersiynau drafft o’r rheoliadau a’r canllawiau/cod, a hoffem eich gwahodd i ymateb fel y bo’n briodol. Edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau.

Huw Irranca-Davies AC
**Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol**

## 1. Cyflwyniad

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf rydym wedi gweld fframwaith cyfreithiol newydd yn cael ei greu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wrth i ddau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth gael eu pasio. Y nod cyffredinol oedd diwygio a chyfuno cyfraith gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwyr.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[1] ('Deddf 2014'), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, yn sefydlu fframwaith newydd sy'n tynnu ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith mewn perthynas â'r rhan fwyaf o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y caiff prosesau mabwysiadu eu rheoli'n bennaf gan Ddeddf Mabwysiadu 1976[2] a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002[3] ('Deddf 2002').

Mae Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[4] ('Deddf 2016'), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016, yn nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac mae hefyd yn diwygio'r dulliau o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n disodli systemau, rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol perthnasol a osodwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000[5].

Caiff Deddf 2016 ei gweithredu mewn tri cham sy'n gorgyffwrdd:

- **Cam 1 (2016/17) –** roedd Cam 1 yn cynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017. Ar y cyd â'r Rheoliadau hyn, aeth Gofal Cymdeithasol Cymru ati i ddatblygu rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r broses gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu.

- **Cam 2 (2017/18)** – sefydlodd Arolygiaeth Gofal Cymru systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau rheoleiddiedig a'u gweithredu o Ebrill 2018 ymlaen. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol cartrefi gofal (gan gynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daethant i rym ar 2 Ebrill 2018.

  I weld rheoliadau a chanllawiau statudol cam 1 a cham 2 ewch i Hyb Gwybodaeth a Dysgu Arolygiaeth Gofal Cymru:
  https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau

- **Cam 3 (2018/19) –** dyma'r cam presennol ac mae'n cynnwys y gwaith o datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf
[2] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/36
[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/38/contents
[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf
[5] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli. Y bwriad yw y bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn rhan o weithredu Cam 3.

Cefnogir y gwaith hwn o ddiwygio cyfraith gofal cymdeithasol gan fentrau polisi ehangach, gan gynnwys rhaglen 'Gwella Canlyniadau i Blant' Llywodraeth Cymru. Caiff y rhaglen hon ei goruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog, sy’n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o lywodraeth leol, y byd academaidd a'r trydydd sector, ynghyd â’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'n canolbwyntio ar dair thema: lleihau nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal; gwella'r canlyniadau i blant sydd mewn gofal (gan gynnwys lleoliadau sefydlog a chynllunio ar gyfer parhad); a chefnogi plant sy'n gadael gofal i fod yn oedolion annibynnol.

## 2. Yr ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn agor ar 4 Medi 2018 ac yn dod i ben am hanner nos ar 27 Tachwedd 2018.

Mae tair elfen i'r ymgynghoriad hwn, a hoffem glywed eich barn:

(i) Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 drafft, sydd:

- yn gosod gofynion newydd ar **ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny**, o dan adrannau 27 a 28 o Ddeddf 2016

  ystyr 'darparwr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig' o dan Ddeddf 2016, yw 'cymdeithas fabwysiadu' neu 'asiantaeth cymorth mabwysiadu' o fewn yr ystyr a roddir yn Neddf 2002

- yn gosod gofynion tebyg, pan fo hynny’n gymwys, ar **ddarparwyr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol a'u rheolwyr**, o dan adran 9 o Ddeddf 2002

(ii) Canllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol, o dan Ddeddf 2016 a chod ymarfer ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol a'u rheolwyr, o dan Ddeddf 2014, er mwyn cyd-fynd â'r rheoliadau hyn ac esbonio ymhellach sut y gellir diwallu'r gofynion rheoleiddiol.

(iii) Yr opsiynau ar gyfer dyfodol yr adolygiadau annibynnol o benderfyniadau ynghylch mabwysiadu.

Cafodd yr opsiynau ar gyfer dyfodol yr adolygiadau annibynnol o benderfyniadau ynghylch maethu eu diwallu yn yr ymgynghoriad diweddar ar wasanaethau Maethu[6].

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn ein helpu wrth inni ystyried y Rheoliadau, y canllawiau statudol a'r Cod ymarfer terfynol. Ein bwriad yw dadansoddi'r ymatebion dros y gaeaf ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau cyn gosod y Rheoliadau a'r cod ymarfer gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod gwanwyn 2019.

Bwriedir i Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 ddod i rym ym mis Ebrill 2019, gyda'r canllawiau statudol a'r cod ymarfer yn cael eu cyflwyno tua'r un pryd.

## 3. Yr angen am newid rheoleiddiol

Mae cryn dipyn wedi'i gyflawni gan y rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru[7]), a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000.  Roedd y fframwaith hwn yn pennu’r safonau gofynnol, ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth ac ar gyfer y gweithlu a oedd yn eu cyflawni, a heb os, mae wedi sicrhau gwell diogelwch i’r cyhoedd. Mae hefyd wedi sicrhau mwy o gysondeb, diogelwch rhag camdriniaeth a chamfanteisio, ac wedi tynnu mwy o sylw at arferion anfoddhaol. Gyda'n gilydd, rydym wedi llwyddo i wella perfformiad a pharhau i ddefnyddio rheoleiddio ac arolygu i ddod o hyd i safonau gwael a chael gwared arnynt.

Fodd bynnag, ers hynny, rydym yn cydnabod bod nifer o bethau wedi newid yn y sector ac o gwmpas y sector, ac rydym wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio yn parhau yn gyfredol, a’r angen i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae'r gwaith o ddiwygio’r system reoleiddio, a gaiff ei lywio yn bennaf drwy Ddeddf 2016, yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

- ymatebolrwydd i’r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014
- sicrhau bod dinasyddion yn ganolog i'r gofal a'r cymorth
- datblygu dull o weithredu i Gymru sy'n ystyrlon a chyson
- mynd i'r afael â methiannau gan ddarparwyr
- ymatebolrwydd i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon newydd ynghylch ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae gan rai o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ran arwyddocaol i’w chwarae o ran gweithredu a bwrw ymlaen â’r gwaith diwygio hwn.

---

[6] https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-gwasanaethau-maethu. Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 24 Mai a 16 Awst 2018.

[7] Arolygiaeth Gofal Cymru (hyd at Ionawr 2018) oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Gofal Cymdeithasol Cymru (hyd at Ebrill 2016) oedd Cyngor Gofal Cymru.

## Y fframwaith rheoleiddio newydd o dan Ddeddf 2016

O dan adran 27 o Ddeddf 2016, caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig. O dan adran 28, gallant osod gofynion ar unigolyn cyfrifol gwasanaeth rheoleiddiedig.

Mae'r gwasanaethau rheoleiddiedig hyn yn cynnwys gwasanaethau mabwysiadu, sydd wedi'u diffinio yn Atodlen 1 o Ddeddf 2016 fel

"yn wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan:
a) cymdeithas fabwysiadu o fewn ystyr "adoption society" yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38) sy'n sefydliad gwirfoddol o fewn ystyr y Ddeddf honno, neu
b) asiantaeth cymorth mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir i "adoption support agency" gan adran 8 o'r Ddeddf honno".

O dan adran 29 o Ddeddf 2016 rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch sut y gall darparwyr gwasanaethau gydymffurfio â gofynion a osodir drwy reoliadau o dan adran 27, gan gynnwys sut y gall darparwyr gyrraedd unrhyw safonau ar gyfer darparu gwasanaeth rheoleiddiedig a bennir drwy reoliadau o'r fath, ac ynghylch sut y gall unigolion cyfrifol gwasanaeth rheoleiddiedig gydymffurfio â gofynion o dan adran 28. Dim ond ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol y mae'r canllawiau statudol yn gymwys (ac nid ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol).

Mae'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol a wneir o dan Ddeddf 2016 yn disodli gofynion a roddwyd ar waith o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'i Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.

## Rheoleiddio gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol

Er nad oes darpariaeth ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn Neddf 2016 (maent yn parhau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002), un o'n hamcanion polisi yw cymhwyso'r un set o safonau (monitro a rheolaeth) ar draws gwasanaethau mabwysiadu llywodraeth leol a gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yng Nghymru. Mae angen rheoliadau newydd i sicrhau hynny felly.

Yn amlwg, bydd rhai gwahaniaethau sylweddol. Er enghraifft, bydd rôl rheolwr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn wahanol iawn, ac ar lefel wahanol, i rôl unigolyn cyfrifol gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig.

O dan adran 145 o Ddeddf 2014, gall Gweinidogion Cymru ddyroddi codau ymarfer i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae cod ymarfer drafft, ynghyd â chanllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu o dan Ddeddf 2016, wedi'u cynnwys at ddibenion ymgynghori yma.

## Y dull o reoleiddio

Y dull o weithredu a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft oedd sicrhau bod y gofynion yn:

- **Gymesur:** dylai'r gofynion ymwneud â materion a reolir gan ddarparwr y gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, neu ei unigolyn cyfrifol, neu ddarparwr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol neu reolwr y gwasanaeth hwnnw; a fydd yn arwain at wella ansawdd ac arferion.

- **Rhesymol gyson** ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016: nid yw hynny'n golygu un safon sy'n addas i bawb, ond y dylai'r un safonau uchel gael eu cymhwyso ar draws yr holl wasanaethau. O'r herwydd, mae'r gofynion yn rhai lefel uchel, ac mae'r manylion ynghylch sut y gellir cydymffurfio â'r gofynion wedi'u nodi yn y canllawiau statudol. Cyn belled â phosibl bydd gofynion cyfatebol yn cael eu cymhwyso i wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, wedi'u hategu gan god ymarfer.

- **Canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl:** y bwriad yw i'r gofynion alluogi i wasanaethau gefnogi pobl yn y ffordd orau bosibl er mwyn cyflawni'r *hyn sy'n bwysig iddyn nhw*, yn unol ag egwyddorion Deddf 2014.

## 4. Y cynigion

### (i) Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 drafft

I gael crynodeb cynhwysfawr o'r hyn y mae'r Rheoliadau drafft yn eu gwneud, darllenwch y nodyn esboniadol ar dudalennau 1 i 5. Ni chaiff y manylion hyn eu hailadrodd yn y ddogfen ymgynghori hon.

Rydym yn cynnig bod y tair set o reoliadau mabwysiadu cyfansawdd[8] a wnaed o dan Ddeddf Mabwysiadu 1976 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, sy'n ganolog i fframwaith rheoleiddio ac arolygu'r gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru, yn cael eu gwneud eto o fewn un set newydd o Reoliadau.

Cynigir y bydd y rheoliadau newydd hyn yn:

- Disodli Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Mabwysiadu (Amryfal Ddiwygiadau) 2003 o dan Ddeddf 2016 ac o ran Cymru yn unig. Mae Rheoliadau 2003 yn rhoi gofynion ar y person sy'n rhedeg neu'n rheoli asiantaeth fabwysiadu wirfoddol (hy cymdeithas fabwysiadu), yn gwneud darpariaeth ynghylch addasrwydd y rheolwr a rheolwr y gangen ac yn gosod gofynion cyffredinol mewn perthynas â sut y caiff yr asiantaeth fabwysiadu wirfoddol ei rhedeg. Byddant yn parhau i fod yn gymwys, yn Lloegr yn unig.

---

[8] Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Mabwysiadu (Amryfal Ddiwygiadau) 2003 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2003/367/pdfs/uksi_20030367_en.pdf
Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/1514/pdfs/wsi_20051514_mi.pdf
Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/1357/pdfs/wsi_20071357_mi.pdf

- Disodli Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005 o dan Ddeddf 2016. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth am y person sy'n rhedeg neu'n rheoli asiantaeth cymorth mabwysiadu gan gynnwys darpariaeth ynghylch y gofynion o ran addasrwydd a gofynion cyffredinol o ran rhedeg yr asiantaeth yn briodol.

  Rydym yn cydnabod bod Rhan 3 o Reoliadau 2005 yn ymwneud â'r ffordd y mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn ymdrin â cheisiadau am gymorth ar gyfer y person sydd wedi'i fabwysiadu (neu berthynas iddo) er mwyn cael gwybodaeth sy'n ymwneud â'u mabwysiadu neu i hwyluso unrhyw gyswllt rhwng y person sydd wedi'i fabwysiadu a pherthynas fiolegol (pherthnasau biolegol) iddo, ac nid yw hynny yn dod o fewn cwmpas Deddf 2016. Fodd bynnag, credwn fod y darpariaethau tebyg yn Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 yn ddigonol ar gyfer diogelu bwriad y darpariaethau hyn. Felly, nid ydym yn cynnig ail-wneud Rhan 3 o Reoliadau 2005 o dan Ddeddf 2016.

- Defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o fewn adran 9 o Ddeddf 2002 i wneud darpariaeth debyg ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, gan felly ddisodli Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007. Mae Rheoliadau 2007 yn darparu fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn cynnwys darpariaeth ynghylch personau sy'n rheoli'r gwasanaeth, ynghylch sut y caiff y gwasanaeth ei redeg, staffio a pha mor addas yw’r gweithwyr, addasrwydd y safle, cwynion a chadw cofnodion, ac ar gyfer adolygu ansawdd y gwasanaeth.

### (ii) Canllawiau Statudol Drafft a Chod Ymarfer

Mae'r canllawiau statudol drafft wedi'u cyfuno â'r cod ymarfer i greu un ddogfen, gan fod nifer o'r gofynion yn gymwys i ddarparwyr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol (maent wedi'u cynnwys yn Rhannau 5 i 8 o'r Rheoliadau drafft).

Mae'r canllawiau statudol, sy'n ofynnol gan adran 29 o Ddeddf 2016, yn nodi sut y gall darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan reoliadau a wneir o dan adran 27 o Ddeddf 2016. Mae hefyd yn nodi sut y gall unigolion cyfrifol y gwasanaethau hynny gydymffurfio â'r gofynion a osodir arnynt gan reoliadau a wneir o dan adran 28 o Ddeddf 2016.

Mae'r cod ymarfer, sydd i'w wneud o dan adran 145 o Ddeddf 2014, yn nodi sut y gall darparwyr gwasanaeth mabwysiadu awdurdodau lleol a'u rheolwyr gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan reoliadau a wneir o dan adran 9 o Ddeddf 2002.

Ein bwriad, ble bynnag y bo hynny'n bosibl, yw bod y canllawiau statudol drafft a'r cod ymarfer yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn ategu'r Rheoliadau drafft.

### (iii) Dyfodol y mecanwaith adolygu annibynnol

Cyflwynwyd adolygiadau annibynnol o benderfyniadau ar gyfer mabwysiadu am y tro cyntaf yn 2006, yn dilyn gweithredu Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002[9]. Yn 2010 estynnwyd yr adolygiadau i gynnwys maethu. Caiff y broses adolygu ei rheoli gan Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010[10]. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu panel, ar ôl iddynt gael cais am adolygiad, a nodi aelodau'r panel adolygu a'i swyddogaethau, a'r amserlen sydd i'w dilyn.

Sefydlwyd y Mecanwaith Adolygu Annibynnol yn 2010 er mwyn rheoli'r broses y gallai darpar fabwysiadwyr neu fabwysiadwyr sydd wedi'u cymeradwyo, a darpar ofalwyr maeth neu ofalwyr maeth presennol, ei defnyddio i wneud cais am adolygiad yn dilyn 'penderfyniad cymhwyster' a wnaed gan eu darparwr gwasanaethau mabwysiadu neu faethu, boed yn asiantaeth annibynnol neu'n awdurdod lleol. Caiff penderfyniadau cymhwyster eu gwneud gan asiantaethau mabwysiadu[11], pan fo'r asiantaeth yn cynnig peidio â chymeradwyo unigolyn fel darpar fabwysiadwr, neu'n cynnig dod â thelerau cymeradwyo unigolyn i ben neu eu newid.

Mae gan y Mecanwaith Adolygu Annibynnol dair swyddogaeth mewn perthynas â mabwysiadu:

- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau 2005 nad yw ymgeisydd yn addas i fabwysiadu plentyn
- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau 2005 nad yw'r ymgeisydd yn addas mwyach i fabwysiadu plentyn
- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005.

Y panel adolygu sy'n cynnal y broses adolygu ac mae'r panel yn gwbl annibynnol ar yr asiantaeth fabwysiadu o dan sylw. Swyddogaeth y panel adolygu annibynnol yw ystyried pob achos o'r newydd a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu. Nid proses apelio yw hon, ac ni all y panel adolygu wrthdroi penderfyniad cymhwyster yr asiantaeth fabwysiadu. Penderfynwr yr asiantaeth fabwysiadu fydd yn parhau i wneud y penderfyniad terfynol.

### Datgelu gwybodaeth am fabwysiadu

O dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005, gall y mecanwaith adolygu annibynnol hefyd ystyried ceisiadau i ddatgelu gwybodaeth am fabwysiadu pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn cynnig bod yr wybodaeth sydd wedi'i diogelu a ddaw o gofnodion mabwysiadu yn cael ei datgelu neu ei dal yn ôl, a hynny'n groes i'r farn a fynegwyd gan y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef. Mae 'gwybodaeth sydd wedi'i diogelu' wedi ei diffinio fel gwybodaeth a gedwir gan asiantaeth

---

[9] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/38/pdfs/ukpga_20020038_en.pdf
[10] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/746/pdfs/wsi_20100746_mi.pdf
[11] Gall asiantaeth fabwysiadu fod yn awdurdod lleol neu'n gymdeithas fabwysiadu gofrestredig (adran 2(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002).

fabwysiadu, sy'n ymwneud â pherson sydd wedi'i fabwysiadu, ac sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ei gwneud yn hawdd adnabod y person.

Gall penderfyniad cymhwyster mewn perthynas â datgeliad fod:

- yn benderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chais i ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i diogelu, am ba reswm bynnag
- yn benderfyniad i beidio â datgelu gwybodaeth sydd wedi'i diogelu i'r ymgeisydd, er bod y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi cytuno i ddatgelu'r wybodaeth o dan sylw
- yn benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth pan fo'r person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi nodi nad yw'n dymuno i'r wybodaeth honno gael ei datgelu (yn y fan hon, yr ymgeisydd yw testun yr wybodaeth).

**Mecanwaith adolygu annibynnol**

O 1 Ebrill 2010 ymlaen, anfonodd Llywodraeth Cymru gontract y Mecanwaith Adolygu Annibynnol yn allanol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n annibynnol. Plant yng Nghymru sy'n rheoli'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol ar hyn o bryd, a hynny o dan gontract i Lywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am y mecanwaith adolygu annibynnol ewch i http://irm.cymru/cy. Mae'r wefan wedi'i llunio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantaethau, ac mae'n esbonio'r gwahanol fathau o benderfyniadau o gymhwyster, y broses ar gyfer gwneud cais a'r hyn y mae paneli'r mecanwaith adolygu annibynnol yn ei wneud. Yno hefyd gallwch weld adroddiadau blynyddol y mecanwaith adolygu annibynnol.

**Yr achos o blaid newid**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau weithdy gyda rhanddeiliaid allweddol ym mis Mehefin 2016, yn Ne a Gogledd Cymru, er mwyn trafod dyfodol yr adolygiadau annibynnol o benderfyniadau ac unrhyw newidiadau posibl i'r rheoliadau a'r canllawiau. Trafodwyd proses yr adolygiadau annibynnol o benderfyniadau hefyd mewn cyfarfod ar y cyd o Grwpiau Technegol Maethu a Mabwysiadu a gwnaeth y trafodaethau hynny ein helpu i baratoi'r ymgynghoriad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau cychwynnol hynny, a fu'n help i lywio'r ymgynghoriad hwn.

Cyflwynwyd adolygiadau annibynnol o benderfyniadau er mwyn:

- gwella hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ar gyfer darpar rieni sy'n mabwysiadu a darpar ofalwyr maeth
- cyflwyno elfen annibynnol i'r broses adolygu,
- annog mwy o bobl i ystyried mabwysiadu neu faethu ac ymgeisio i fod yn ofalwyr maeth neu'n fabwysiadwyr.

Yn achos mabwysiadu, mae'r mecanwaith adolygu annibynnol yn hyrwyddo hawliau plant drwy ddarparu rhieni addas sy'n mabwysiadu ar gyfer y plant hynny na fyddant byth yn gallu byw gyda'u teulu biolegol. Mae mabwysiadu yn rhoi amgylchedd teuluol sefydlog i blant a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu hallgáu, o fyw mewn tlodi a chael llai o gyfleoedd mewn bywyd. Polisi Llywodraeth Cymru yw annog pobl o

amrywiol gefndiroedd i ystyried mabwysiadu, a hefyd annog mwy o ddarpar fabwysiadwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Drwy ddarparu mecanwaith adolygu annibynnol pan fydd telerau cymeradwyo darpar fabwysiadwr yn newid neu'n dod i ben (neu os bydd cais yr unigolyn yn cael ei wrthod), mae’r mecanwaith adolygu annibynnol yn helpu i sicrhau bod pawb yn cael eu hystyried a’u hadolygu’n briodol cyn iddynt gael eu heithrio.

Ers 2010, mae'r mecanwaith adolygu annibynnol wedi bod ar gontract allanol ac yn destun proses dendro gystadleuol sydd wedi cynnwys rhoi ystyriaeth gofalus i’r gost gyffredinol o gynnal y gwasanaeth yn unol â’r rheoliadau ac ystyried a yw'n cynnig gwerth am arian. Rydym yn gwybod, o’r adborth gan ymgeiswyr, aelodau panel ac asiantaethau mabwysiadu, bod y mecanwaith adolygu annibynnol yn cael ei werthfawrogi oherwydd ei fod yn annibynnol ac am ei rôl o ran darparu sicrwydd ansawdd i'r penderfyniadau a wneir gan baneli mabwysiadu a maethu. Yn benodol, mae ymgeiswyr yn gwerthfawrogi tryloywder y broses adolygu a’r teimlad bod rhywun wedi gwrando arnyn nhw a’u pryderon. Mae canfyddiadau ac argymhellion paneli'r mecanwaith adolygu annibynnol hefyd yn cyfrannu at yr hyn a gaiff ei ddysgu i asiantaethau ac ymarferwyr mabwysiadu ac yn cyfrannu at eu harferion da.

Fodd bynnag, roedd yr adborth hefyd yn awgrymu bod y mecanwaith adolygu annibynnol yn wasanaeth costus i'w redeg o ystyried y nifer cyfyngedig o geisiadau a geir bob blwyddyn a nifer yr adolygiadau a gynhelir bob blwyddyn. Gan fod y mecanwaith adolygu annibynnol yn cael ei arwain gan alw, mae gwir nifer y ceisiadau a’r adolygiadau yn amrywio o un flwyddyn i’r llall. O 2010-11 i 2014-15, symudodd wyth cais y flwyddyn ymlaen i gael eu hadolygu. Yn 2015-16 gostyngodd y rhif hwn i bump, ac yn 2016-17 cynhaliwyd chwe adolygiad. Yn 2017-18, cafwyd deg cais ac aeth chwech ymlaen i gael eu hadolygu (a disgwylir y seithfed adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol). Mae costau’r mecanwaith adolygu annibynnol yn rhannu’n ddwy ran: elfen benodedig i redeg y cynllun, a chost fesul adolygiad. Gan ganiatáu i chwe adolygiad gael eu cynnal yn 2017-18, cyfanswm cost y gwasanaeth oedd tua £58,000.

Mynegwyd pryder ynghylch gwerth am arian, ac a oedd achosion yn cael eu cyflwyno ar gyfer adolygiad yn ddiangen – hy roedd hyn yn ffordd gostus o ddelio â materion y gellid ymdrin â nhw yn gynharach yn y broses asesu / o wneud penderfyniadau. Disgwylir i asiantaethau mabwysiadu gyfrannu tuag at gyfran o’r costau adolygu - sydd ar hyn o bryd yn £3,403 fesul adolygiad.

Mae nifer o resymau wedi cael eu crybwyll am y gostyngiad yn nifer y ceisiadau am adolygiad. Mae’n bosibl bod yr asesiadau sydd bellach yn fwy cadarn a bod y broses o wneud penderfyniadau wedi cyfrannu at y gostyngiad. Efallai bod gweithdrefnau cwyno newydd, sy’n cyflwyno elfen o annibyniaeth, yn cynnig ffordd arall i ddarpar ymgeiswyr fynegi eu pryderon. Nid yw’r mecanwaith adolygu annibynnol yn rhwystro pobl rhag defnyddio gweithdrefnau cwyno'r asiantaeth fabwysiadu, ac mae adborth gan baneli'r mecanwaith adolygu annibynnol yn awgrymu mai'r hyn y mae'r ymgeiswyr yn ei werthfawrogi fwyaf yw teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw a'u pryderon.

Hyd yn hyn, nid yw'r mecanwaith adolygu annibynnol wedi cael unrhyw gais mewn perthynas â datgelu gwybodaeth am fabwysiadu. Fodd bynnag, os bydd y mecanwaith adolygu annibynnol yn cael ei newid, bydd angen gwneud darpariaeth amgen ar gyfer unrhyw geisiadau posibl ar y seiliau hyn.

## Ein cynigion

Mae Llywodraeth Cymru am glywed eich barn ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau a'r mecanwaith adolygu annibynnol. Byddem yn falch o glywed eich barn o ran a oes angen cadw system o adolygu annibynnol yn yr hirdymor, neu a oes yna fecanweithiau eraill a allai gael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod mabwysiadwyr sydd wedi'u cymeradwyo / darpar fabwysiadwyr sy'n anghytuno â phenderfyniadau am eu telerau cymeradwyo yn gallu sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed.

Cafwyd nifer o awgrymiadau yn ystod y gweithdai cychwynnol. Gan gynnwys:

- Cadw'r system bresennol o baneli adolygu annibynnol, ar y sail ei bod yn gweithio'n dda ac yn cynnig ffordd i ymgeiswyr sicrhau bod eu safbwyntiau a'u pryderon yn cael eu clywed mewn ffordd briodol. Fel hyn, mae bodlonrwydd y defnyddiwr ac annibyniaeth y broses adolygu yn bwysicach na'r gost.

- Buddsoddi i wella'r ffordd y mae asiantaethau mabwysiadu ac awdurdodau lleol yn delio â cheisiadau gan ddarpar fabwysiadwyr, a sut y maent yn gwneud penderfyniadau ac yn eu cyfleu i fabwysiadwyr sydd wedi'u cymeradwyo / darpar fabwysiadwyr. Gallai canllawiau ymarfer ar gyfer asiantaethau mabwysiadu helpu gyda'r gwaith hwn. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai nifer yr adolygiadau annibynnol yn parhau i ostwng dros amser a byddai'r angen am y mecanwaith adolygu annibynnol yn lleihau hefyd.

- Disodli'r system gyfredol o baneli adolygu gyda dull symlach, sy'n cynnwys un adolygydd annibynnol efallai. Mewn sefyllfa o'r fath, efallai y byddai rhestr ganolog o adolygwyr cymwys addas yn bodoli o hyd, a byddai modd galw arnynt yn unigol i adolygu penderfyniad cymhwyster. Er y byddai hyn yn lleihau gwir gost pob adolygiad, byddai angen o hyd i sefydliad ystyried ceisiadau, cynnal y rhestr ganolog a gwneud gwaith gweinyddol arall.

- Sefydlu system sy'n golygu bod asiantaeth fabwysiadu neu awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o benderfyniad cymhwyster pan ofynnir iddynt wneud hynny. Gallai penderfynwr y darparwr arall gwblhau'r adolygiad hwn. Byddai hynny'n arwain at lai o gostau yn gyffredinol, ond mae'n bosibl y byddai'n rhoi rhagor o bwysau ar benderfynwyr. Hefyd efallai y byddai'n gweithio'n well i awdurdodau lleol nag asiantaethau mabwysiadu, sydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am ddarpar fabwysiadwyr, ac o ganlyniad, mae'n bosibl na fyddant yn dymuno rhannu data.

- Tynnu'r hawl i gael adolygiad annibynnol yn llwyr, fel y byddai angen i fabwysiadwyr sydd wedi'u cymeradwyo a darpar rieni maeth a oedd yn dymuno herio penderfyniad cymhwyster ddibynnu ar bolisi cwyno a sylwadau yr asiantaeth fabwysiadu neu'r awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol sefydlu polisi a gweithdrefn gwyno. Mae'n bosibl y gellid atgyfnerthu'r gofynion hyn drwy gynnwys gofyniad am elfen annibynnol mewn achosion pan fo cwyn wedi'i gwneud am benderfyniad cymhwyster. Mae awdurdodau lleol eisoes wedi sefydlu gweithdrefn gwyno sy'n cynnwys elfen annibynnol os nad oes modd datrys y gŵyn yn gynnar yn y broses.

## 5. Newidiadau rheoleiddiol sylweddol

Mae'r nodyn esboniadol i Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 drafft yn disgrifio beth yn union y mae pob rhan o'r rheoliadau yn ei wneud. Nid yw'r manylion hynny'n cael eu hailadrodd yma.

Serch hynny, hoffem dynnu eich sylw yn benodol at rai agweddau ar y Rheoliadau drafft:

**Rhan 2 - Eithriadau**

Mae rheoliad 4 drafft yn rhagnodi nad yw'r gwasanaethau canlynol i'w trin fel gwasanaeth mabwysiadu:

(a) darparu gwasanaeth mewn perthynas â mabwysiadu gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr yng nghwrs gweithgaredd cyfreithiol.

(b) darparu gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant sy'n cael eu mabwysiadu, rhieni sy'n mabwysiadu a rhieni biolegol neu gyn-warcheidwaid plentyn sy'n cael ei fabwysiadu i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu.

Mae'r grwpiau hyn wedi cael eu heithrio oherwydd bod fforymau trafod a grwpiau hunangymorth yn bodoli er mwyn rhoi llwyfan i bobl sydd wedi'u heffeithio gan fabwysiadu i rannu eu profiadau a chynghori a gwrando ar eu cyfoedion; a rôl yr hwylusydd felly yw annog a galluogi unigolion (drwy ddulliau ymarferol) i helpu eu hunain. Felly, ein barn ni, yw nad yw'r hwyluswyr hynny'n darparu unrhyw wasanaethau cymorth mabwysiadu yn uniongyrchol.

(c) darparu gofal seibiant i blentyn sy'n cael ei fabwysiadu neu riant sy'n mabwysiadu gan wasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref cofrestredig

(d) darparu gofal seibiant mewn perthynas â mabwysiadu sy'n cynnwys gwarchod plant neu ofal dydd cofrestredig

Rydym yn cynnig y dylai darparwyr cymorth mabwysiadu sy'n rhoi gofal seibiant (c a d) i blant sydd wedi'u mabwysiadu gael eu cofrestru a'u rheoleiddio yn unol â'u prif fusnes (ee fel darparwr gofal preswyl i blant anabl neu fel gwarchodwr plant) yn hytrach na'u bod yn dod o dan y weithdrefn ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig hefyd.

(e) darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan berson (ac eithrio mewn partneriaeth ag eraill) a hynny dim ond o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig; neu wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol.

Nid ydym o'r farn y dylai unigolion nad ydynt yn cyflogi staff ac sy'n gweithio o dan gontract gyda gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig neu wasanaeth

mabwysiadu awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu fod wedi'u cofrestru eu hunain. Bydd yr asiantaeth ei hun yn destun y weithdrefn rheoleiddiol ac felly'n gyfrifol am sicrhau bod unigolion o'r fath yn gweithredu yn unol â'r safonau diogelwch ac ansawdd priodol. Yn ein barn ni, byddai ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu rheoleiddio'n uniongyrchol yn anghymesur o ran y gofynion sydd arnyn nhw a'r gofynion sydd ar reoleiddiwr y gwasanaeth. Byddai'r eithriad hwn hefyd yn cynnwys darparwyr unigol trawsffiniol (Cymru a Lloegr) ar yr amod eu bod ar gontract i wasanaeth mabwysiadu cofrestredig neu wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol yn Lloegr. Bydd yr unigolion hyn wedi'u cofrestru gydag Ofsted hefyd.

Mae'r eithriadau arfaethedig hyn yn adlewyrchu'r rhai sydd mewn grym yn Lloegr o dan reoliad 4 o Reoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Lloegr) ac Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygiadau Amrywiol) 2005 (O.S. 2005/2720).

Byddem yn hoffi cael gwybod hefyd a ydych yn meddwl y byddai'n briodol cynnwys eithriad arall: ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu sy'n cael eu darparu'n gysylltiedig â phrif ddiben y darparwr gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys darparwr sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr ond sy'n gweld bod angen iddo gynnal rhywfaint o weithgarwch cysylltiedig yng Nghymru. Er enghraifft, pe bai therapydd yn rhoi cymorth i blentyn sydd wedi'i leoli yn Lloegr ac yn dymuno, fel rhan o'r ymyriad, ymweld â brawd neu chwaer y plentyn, sy'n byw yng Nghymru. Gallai hyn gael ei gyfrif yn rhywbeth sy'n gysylltiedig yn unig â'r gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir yn Lloegr.

Ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, ar ddiwedd y ddogfen hon, rydym yn holi a yw'r eithriadau hyn yn briodol ac a oes angen ystyried unrhyw eithriadau pellach (a'r rhesymau dros hynny).

**RHAN 14 – Troseddau**

Caiff y rheoliadau yn Rhan 14 (troseddau) eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau o fewn adrannau 45 a 46 o Ddeddf 2016.

Mae rheoliad 63(1) yn nodi pa ofynion a gaiff eu trin fel troseddau os na fydd y darparwr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn cydymffurfio â nhw. Yn ogystal, pan fo darparwr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol eraill, mae rheoliad 63(3) yn darparu bod hyn yn drosedd os yw'r methiant i gydymffurfio yn arwain at wneud y plentyn yn agored i niwed y gellir ei osgoi neu'n agored i risg sylweddol o niwed o'r fath neu'n agored i golli arian neu eiddo o ganlyniad i ddwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi.

Nod y rheoliadau yw creu sefyllfa fwy cyfartal o ran a yw troseddau yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau heblaw darparwyr awdurdodau lleol. Er bod rhai troseddau wedi'u nodi yn Rheoliadau 2005 (mewn perthynas ag asiantaethau cymorth mabwysiadu) nid oedd hyn yn wir yn achos asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn Rheoliadau 2003. Felly rydym yn creu troseddau newydd mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, fel bod y gyfundrefn orfodi yn un gydlynol.

Nid yw'r darpariaethau hyn yn cael eu hailadrodd ar gyfer darparwyr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol oherwydd bod gweithdrefn yn ei lle eisoes ganddynt hwy ar gyfer monitro ac arolygu gwasanaethau plant awdurdodau lleol.

Mae rheoliad 64 yn nodi pa ofynion a gaiff eu trin fel troseddau os na fydd yr unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â nhw.

Mae’n werth nodi, er efallai nad yw methiant i gydymffurfio gyda gofyniad penodol yn y Rheoliadau drafft yn drosedd, y gallai methiant ar ran darparwr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig i gydymffurfio ag unrhyw un o’r gofynion a osodir arnynt yn Rhannau 3, 5, 6, 7 ac 8 o'r Rheoliadau fod yn sail ar gyfer diddymu eu cofrestriad o dan adran 15 o Ddeddf 2016. Gallai methiant ar ran unigolyn cyfrifol i gydymffurfio ag unrhyw un o’r gofynion yn Rhannau 9 i 13 o'r Rheoliadau fod yn sail i ddiddymu dynodiad yr unigolyn cyfrifol, o dan adran 22 o Ddeddf 2016.

**Hysbysiadau cosb**

Er bod y Rheoliadau drafft yn nodi pa achosion o dorri gofynion gan ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol sydd i’w trin fel troseddau, nid ydynt yn gwneud darpariaethau ar gyfer cymhwyso hysbysiadau cosb. Yn ystod cam 2 o'r broses weithredu, sefydlodd Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017[12] system hysbysiadau cosb, lle y gallai Arolygiaeth Gofal Cymru roi cosb i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau rheoleiddiedig yn hytrach na dwyn achos ar gyfer troseddau penodol.

Bwriad ein polisi yw estyn hyn i wasanaethau cam 3, gan felly galluogi'r un system hysbysiadau cosb i fod yn gymwys i droseddau cyfwerth ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol. Caiff hyn ei ddangos yn glir yn y Tabl yn Atodiad A (dogfen ar wahân) a gofynnwn am eich barn ar hyn yn y ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol**

Mae'r gofynion ychwanegol sydd wedi trosglwyddo o Reoliadau 2007 i Ran 18 o'r Rheoliadau drafft yn cynnwys y gofyniad i agor cofnod achos plentyn; y gwasanaethau i'w darparu i rieni biolegol; y gofynion ar ddarparwr gwasanaeth ynghylch recriwtio, paratoi a chymeradwyo mabwysiadwyr a darparu gwybodaeth iddynt; a chymorth yn ystod unrhyw gyfnod o amharu neu amharu tebygol.

[12] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1292/pdfs/wsi_20171292_mi.pdf

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (os yw'n berthnasol): | |
| E-bost / rhif ffôn: | |

**Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgyngoriadau yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech inni gadw'ch ymateb yn ddienw, ticiwch yma:** ☐

| **RHAN 2: Gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig – gwasanaethau rhagnodedig ac eithriadau** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r 'gwasanaethau cymorth mabwysiadu' fel y'u rhagnodir yn rheoliad 3(1) yn glir a phriodol?** Esboniwch y rheswm dros eich ateb yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |
| **A yw'r eithriadau arfaethedig yn rheoliad 4(1) yn briodol?** Os ydych yn credu bod angen cyflwyno rhagor o esemptiadau – er enghraifft ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu nad ydynt ond yn gysylltiedig â phrif ddiben y darparwr gwasanaeth (gweler tudalen 13) – esboniwch hynny yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| **RHAN 3: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu - gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig?*** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |
| **RHAN 4: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?*** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r cod ymarfer drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |
| |
| **RHAN 5: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol** |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| |
|---|
| |
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |
| |

| |
|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?*** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| |
|---|
| |
| **A yw'r cod ymarfer drafft yn rhoi cymorth digonol i ddarparwyr *gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |
| |
| **RHAN 6: Polisïau, gweithdrefnau a safonau eraill – darparwyr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaeth mabwysiadu awdurdodau lleol** |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| |
|---|
| |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r cod ymarfer drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |
| |

| **RHAN 7: Mangreoedd (safleoedd), cyfleusterau a chyfarpar - darparwyr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r cod ymarfer drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 8: Staffio - darparwyr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| | | | |
| **A yw'r cod ymarfer drafft yn rhoi cymorth digonol i *ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |
| **RHAN 9: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer unigolion cyfrifol?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i unigolion cyfrifol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |

| **RHAN 10: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio’n effeithiol** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *unigolion cyfrifol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **A yw’r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *unigolion cyfrifol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**<br>Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |

| **RHAN 11: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *unigolion cyfrifol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **A yw’r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *unigolion cyfrifol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan hon?**<br>Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |

| RHAN 12: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *unigolion cyfrifol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *unigolion cyfrifol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |
| **RHAN 13: Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *unigolion cyfrifol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| **A yw'r canllawiau statudol drafft yn rhoi cymorth digonol i *unigolion cyfrifol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |

| **RHAN 14: Troseddau** |
|---|
| **A yw'r dull o weithredu mewn perthynas â throseddau yn y Rheoliadau drafft (rheoliad 63 mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a rheoliad 64 mewn perthynas ag unigolion cyfrifol) yn ddigonol a chymesur?** Os nad yw, rhowch resymau isod |
| |
| **Hysbysiadau Cosb (Nid oes darpariaeth yn y Rheoliadau drafft ar gyfer hysbysiadau cosb)** |
| **A yw'r dull o weithredu mewn perthynas â hysbysiadau cosb, fel y dangosir hynny yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw'r lefelau cosb yn briodol?** Os nad ydynt, rhowch resymau isod |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| **RHAN 15: Darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u datod etc. neu sydd wedi marw** |
|---|
| **A yw'r gofynion a osodir ar bersonau a benodir a chynrychiolwyr personol yn rhesymol?** Os nad ydynt, rhowch resymau isod |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| **RHAN 16: Rheoliadau o dan adran 21(5) o'r Ddeddf – Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r amgylchiadau lle y gallai unigolion cyfrifol gael eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na darparwr y gwasanaeth, yn ddigonol ac yn briodol?** Os nad ydynt, rhowch resymau isod | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |
| **RHAN 17: Gofynion ar reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |
| **A yw'r cod ymarfer drafft yn rhoi cymorth digonol i *reolwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |

| **RHAN 18: Gofynion eraill ar ddarparwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol*?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |
| **A yw'r cod ymarfer drafft yn rhoi cymorth digonol i r*eolwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol* o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod rhywbeth ar goll neu wedi'i gynnwys yn ddiangen, rhowch esboniad yn y blwch isod. | | | |
| | | | |

| MECANWAITH ADOLYGU ANNIBYNNOL |
|---|
| **Byddem yn falch o glywed eich barn ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o benderfyniadau a'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol. Wrth ichi fynegi'ch barn, ystyriwch y cwestiynau canlynol:**<br><br>• A oes angen o hyd am adolygiadau annibynnol o benderfyniadau mewn perthynas â mabwysiadu?<br>• A fyddai unrhyw anfanteision i dynnu'r gofyniad i gynnal adolygiad annibynnol o benderfyniadau ar gyfer mabwysiadu?<br>• A ddylem gadw'r trefniadau presennol ar gyfer adolygiadau annibynnol a gefnogir gan fecanwaith adolygu annibynnol? Rhowch resymau am eich atebion?<br>• A oes trefniadau newydd neu amgen a allai gael eu sefydlu ar gyfer adolygu penderfyniadau o gymhwyster ar gyfer mabwysiadu? Os oes, beth allai'r trefniadau hynny fod?<br>• Pa drefniadau amgen a allai gael eu sefydlu ar gyfer ceisiadau i ddatgelu gwybodaeth am fabwysiadu?<br>• Os ydych eisiau cynnig trefniadau newydd neu amgen, byddwch mor fanwl â phosibl ynghylch sut y gallai'r trefniadau hynny weithio'n ymarferol, ac egluro sut y byddai unrhyw gynigion yn dangos tryloywder, annibyniaeth ac yn hyrwyddo mabwysiadu. |
| Rhowch sylwadau os gwelwch yn dda: |

| Cwestiynau eraill: |
| --- |
| Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru ddeall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.<br><br>**Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?** |
| Eglurwch os gwelwch yn dda. |
| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?** Os felly, pa rai a pham/pam ddim? |
| Eglurwch os gwelwch yn dda. |

| |
|---|
| Hoffem wybod beth yw eich barn ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â<br><br>i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a<br>ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.<br><br>**Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?** |
| Eglurwch os gwelwch yn dda. |
| **Hefyd eglurwch, yn eich barn chi, sut y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:**<br><br>i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg<br><br>ii) peidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. |
| |

| **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.** |
| --- |
| |